# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 5

CYFFREDINOL

### 41 Cydweithio a gweithio ar y cyd rhwng Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol

(1) Caiff y partneriaid iechyd meddwl lleol at ddibenion eu swyddogaethau o dan Rannau 1 a 3 o'r Mesur hwn–

(a) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau, adeiladau neu adnoddau eraill i'w gilydd;

(b) sefydlu a chynnal cronfa gyfun.

(2) Caiff Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Mesur hwn–

(a) roi staff, nwyddau, gwasanaethau, adeiladau neu adnoddau eraill i'w gilydd;

(b) sefydlu a chadw cronfa gyfun.

(3) At ddibenion is-adrannau (1) a (2) cronfa gyfun yw cronfa–

(a) sy'n cael ei ffurfio o gyfraniadau gan bersonau a grybwyllir yn is-adrannau (1) a (2); a

(b) y caniateir gwneud taliadau allan ohoni tuag at wariant a dynnir wrth gyflawni swyddogaethau o dan Rannau 1 i 3.

(4) Caiff partneriaid iechyd meddwl lleol, os gwelant yn dda, arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan Rannau 1 a 3 ar y cyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 41 mewn grym ar 6.6.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(t)**

**I3** A. 41 mewn grym ar 1.10.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 41.